TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# Crochet For Beginners



### Yn gryno

Mae enw'r cwrs hwn, Gwaith Crosio i Ddechreuwyr, yn dweud y cwbl - mae wedi'i ddylunio ar gyfer dechreuwyr!

### Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

Unigolion creadigol brwd sy'n awyddus dysgu sgil newydd neu ddod o hyd i hobi creadigol.

### Cynnwys y cwrs

Bydd y cwrs cyflwyniadol hwn yn eich galluogi chi i ddatblygu sgiliau a hyder ym mhwythau a thechnegau crochet sy'n ofynnol i wneud dillad ac eitemau addurniadol syml.

Gan ddefnyddio termau crochet yn seiliedig ar eirfa'r Unol Daleithiau, ar y cwrs hwn byddwch yn dysgu:

cadwynau

pwythau crochet unigol, dwbl a threbl
sut i ddarllen a dilyn patrymau crochet
gwaith crochet cylchol
rhesi a throi
cynyddu a lleihau pwythau

Bydd bob sesiwn yn para am ddwy awr ac yn eich caniatáu chi i ymarfer y gwahanol bwythau a chynhyrchu darn o waith sylfaenol.

**Gofynion Mynediad**

Nid oes gofynion mynediad ffurfiol, mae diddordeb yn y pwnc yn ddigon.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Yn ystod wythnos un, cewch edau gwnïo trwchus a bachyn crochet 6mm. Bydd yr eitemau isod yn ofynnol ar gyfer gwersi dilynol ac yn cael eu trafod yn ystod y sesiynau:

Bachau crochet o faint amrywiol
Gwau dwbl ac edau drwchus mewn amrywiaeth o ddeunyddiau
Nodwydd tapestri (neu gyfwerth) ar gyfer prosiectau gwnïo/gwehyddu tameidiau

Efallai y bydd rhaid prynu ychydig mwy o eitemau yn ystod y cwrs.